



Mae band pres a ddiddanodd EM y Frenhines ac a darodd y nodyn iawn gyda gyrwyr y Grand Prix yn dod â'i gymysgedd unigryw o gerddoriaeth ac adloniant i'r Rhyl.

Bydd Bombay Baja – band pres Indiaidd arweiniol Ewrop – yn perfformio yn un o'r digwyddiadau sydd wedi eu trefnu gan Gyngor Tref y Rhyl dros yr ychydig fisoedd nesaf. Bydd Diwrnod Calan Mai y Maer (Mai 9) yn dod â lliw, cerddoriaeth ac adloniant i Stryd Fawr y dref, yn cael ei arwain gan y band pres yma sydd wedi perfformio o gwmpas y byd gan gynnwys yn y Grand Prix yn Bahrain.

Mae digwyddiadau a gweithgareddau eraill yn cynnwys act cerdded o gwmpas ar gyfer y Pasg, 'Sizzler' Haf y Rhyl ym mis Gorffennaf a pharti Nadolig am ddim i'r plant ym mis Rhagfyr. Bydd y Summer Sizzler yn gweld Granny Turismo – unig dîm arddangos dawnsio trolis siopa – yn dod i'r Rhyl am y tro cyntaf.

Meddai maer y Rhyl, y Cyngorydd Ellie Chard: "Unwaith eto, mae'r cyngor tref yn darparu adloniant am ddim i drigolion ac ymwelwyr, gyda digwyddiadau yn llawn o actau, gweithgareddau a phethau i'w gwneud. Bydd rhai pethau yma am y tro cyntaf, ond rydym hefyd yn croesawu'n ôl ffefrynnau megis Pwnsh a Jwdi a'r band drymio hynod Batala Bangor."

Bydd dychanwyr, gweithdai sgiliau syrcas, cerddwyr stiltiau, gwneud crefftau a pheintwyr wynebau hefyd yn ymuno â ni eleni.

"Cynhelir Diwrnod Calan Mai y Maer dros y penwythnos Diwrnod VE a bydd llawer o weithgareddau a phrofiadau sy'n crybwyll y digwyddiad hanesyddol hwn. Rydym wedi trefnu digwyddiadau i bob oedran gyda llawer o weithgareddau y gall pobl eu gwneud gyda'i gilydd, gan gynnwys cyfle i'r gymuned gyfan greu darn anferth o waith celf.

“Mae’r cyngor tref yn gwneud popeth unwaith eto i ddod â rhywbeth gwahanol i’r dref,”
ychwanegodd y Cynghorydd Chard.

Ynghyd â digwyddiadau sy’n para am ddiwrnod cyfan, bydd y cyngor tref yn trefnu digwyddiadau cefndir i siopwyr ac ymwelwyr a bydd yn dathlu Dydd Gwyl Dewi ar ddydd Sadwrn Chwefror 29 gyda chennin pedr ar stiltiau a cherddoriaeth gan gôr cymunedol Ghostbusters ar y Stryd Fawr. I gael rhagor o wybodaeth ar gynlluniau’r cyngor tref, cadwch eich llygaid ar www.rhylltowncouncil.org.uk neu eu sianeli cyfryngau cymdeithasol.

Capsiwn: Bydd Bombay Baja yn dod â’u cerddoriaeth ac adloniant i’r Rhyl.

Dydd Gwyl Dewi

Sadwrn Chwefror 29: 11am-2pm
Cerddoriaeth fyw a chennin pedr ar stiltiau

Hwyl y Pasg

Llun Ebrill 13: 11am-2pm
Stryd Fwr y Rhyl
Ymunwch â Pete a Ged Moss wrth iddyn nhw grwydro’r Rhyl ar Daith Wyau Pasg. Bydd ganddynt anrhegion a hwyl i bawb.

Dydd Calan Mai y Maer

Sadwrn Mai 9: 11am-4pm
Stryd Fawr y Rhyl
I’w gynnal ar benwythnos Diwrnod VE, mae gan y digwyddiad am ddim hwn rywbeth i bawb. Ewch ar antur gyda’r crwydrwyr Edmund & Hilary, gwneud crefftau i fynd adref gyda chi, rhoi cynnig ar stondinau gemau glan y môr, gwrandewch ar y band pres gwahanol, gweld cerddwyr stiltiau a chael eich diddanu gan filwyr tegan.

Sunny Rhyl Summer Sizzler

Sadwrn Gorffennaf 25: 11am-4pm
Stryd Fawr Y Rhyl
Cyfle i fwynhayu diwrnod traddodiadol ar lan y môr. Gwneud crefftau cerrig mân, profi eich sgiliau gemau glan y môr, gwrande ar gerddoriaeth fyw, taclo’r môr-filwyr, ymarfer eich sgiliau syrcas a gwyllo sioe Pwnsh a Jwdi. Ac mae gennym hefyd weithgaredd celfyddyd anferth i’r teulu cyfan a thri gwestai arbennig iawn – gwylwch allan am y neiniau’n dawnsio a Charlie Chaplin.

Parti Nadolig Rocking Rhyl

Sadwrn Rhagfyr 5: 3pm-5pm
Neuadd y Dref, y Rhyl
Tocynnau am ddim. Trefnu arlein.
Ymunwch yn hwyl yr wyl gyda gemau a disgo am ddim.

Diwedd

